



Beth yw pleidleisio?

Mae'r adran yma yn esbonio beth yw pleidleisio a sut mae'n gweithio.

Beth yw pleidleisio?



Mae'r adran yma yn esbonio beth yw pleidleisio a sut mae'n gweithio.

Bydd yr adran yma yn esbonio beth yw pleidleisio a pham mae'n bwysig.

Byddwch chi'n cael gwybod am y canlynol:

1. Beth yw pleidleisio
2. Pwy sy'n cael bwrw pleidlais
3. Am beth rydym yn pleidleisio

Etholiad yw pan fydd grŵp o bobl yn pleidleisio. Mae gwahanol etholiadau yng Nghymru y gallwn bleidleisio ynddyn nhw.



Mae gan bobl sydd ag anabledd dysgu yr un hawl i bleidleisio â phawb arall.

Rydym yn pleidleisio dros rywun i'n cynrychioli ni ac i wneud penderfyniadau drosom ni. Maen nhw'n gwneud penderfyniadau pwysig sy'n gallu effeithio ar fywydau pobl.

Gwybodaeth gyswllt
e-bost: helpline.wales@mencap.org.uk
ffôn: 0808 8000 300

Beth yw pleidleisio?



Er enghraifft, mae'r Llywodraeth yn gwneud penderfyniadau pwysig sy'n gallu newid:

- gwasanaethau addysg
- sut mae pobl sydd ag anabledd dysgu yn cael cymorth
- sut mae pobl sydd ag anabledd dysgu yn cael gofal iechyd



Pwy all bleidleisio?

Er mwyn pleidleisio yn yr etholiadau, mae'n rhaid i chi fod:

- yn 16 oed neu'n hŷn
- yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad, yn ddinesydd o'r Undeb Ewropeaidd neu'n ddinesydd tramor cymwys
- yn byw yng Nghymru

Gwybodaeth gyswllt
e-bost: helpline.wales@mencap.org.uk
ffôn: 0808 8000 300

Beth yw pleidleisio?

Dydd Iau

5 Mai
Diwrnod
Etholiad!



Am beth rydym yn pleidleisio

Bydd gennym etholiadau lleol ar 5 Mai 2022. Mae cynghorau lleol yn gwneud penderfyniadau ar lawer o faterion:

- pa mor aml mae'ch sbwriel yn cael ei gasglu
- gwella'r ffyrdd yn eich ardal
- gwneud cyfleusterau chwaraeon lleol yn well

Mae'n bosibl y byddwch chi'n clywed cynghorau lleol yn cael eu galw'n llywodraeth leol neu'n awdurdodau lleol hefyd. Caiff y bobl sy'n eich cynrychioli chi ar eich cyngor lleol eu galw'n gynghorwyr.

Mae gan gynghorwyr syniadau gwahanol am y ffordd orau o redeg gwasanaethau lleol.



Er mwyn cael gwybod am etholiadau sy'n digwydd yn eich ardal chi, rhwch eich cod post ym mlwch chwilio gwefan y Comisiwn Etholiadol a bydd yn dweud wrthyhych am yr etholiadau sy'n cael eu cynnal. Ewch i www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr

Gwybodaeth gyswllt
e-bost: helpline.wales@mencap.org.uk
ffôn: 0808 8000 300

Beth yw pleidleisio?



Angen help? Mae rhagor o wybodaeth am bleidleisio ar gael ar wefan Mencap: www.mencap.org.uk/get-involved/campaigning/guides-voting

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr etholiad, gallwch ffonio llinell gymorth Mencap ar 0808 8000 300.

Gwybodaeth gyswllt
e-bost: helpline.wales@mencap.org.uk
ffôn: 0808 8000 300



Y
Comisiwn
Etholiadol

Gwybodaeth Cyswllt
e-bost: helpline.wales@mencap.org.uk
ffôn: 0808 8000 300